# Cynllun cilio rhag tanau gwyllt

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **40 munud neu fwy** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar sut i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel os digwydd achos o dân gwyllt.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Iechyd a lles | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Y Celfyddydau Mynegiannol |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | | |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Bydd cwblhau'r gweithgaredd hwn yn cynnig cyfleoedd i gyflawni meysydd canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu |
|---|---|
| • Cyfathrebu. | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol. |
| • Cydweithredu. | |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Cydnabod y gall eu penderfyniadau gael effaith arnyn nhw eu hunain yn ogystal ag eraill, nawr ac yn y dyfodol.
- Cyfuno gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth er mwyn cynllunio a chyfathrebu gwaith creadigol ar gyfer ystod o wahanol gynulleidfaoedd, dibenion a chanlyniadau.
- Dechrau cyfeirio at ffynonellau a ddefnyddiwyd yn eu gwaith, ac ystyried p'un a yw'r cynnwys yn ddibynadwy.

## Adnoddau ac offer

- Nodyn gwybodaeth - Tân
- Nodyn gwybodaeth - Tanau gwyllt
- Nodyn gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt

## Beth i'w wneud

1. Eglurwch fod tanau gwyllt yn hynod beryglus i fywydau pobl a'r amgylchedd naturiol, a'i bod yn gyfrifoldeb ar bawb i atal tanau gwyllt damweiniol neu fwriadol rhag cychwyn er mwyn gwarchod bywydau, eiddo a'r amgylchedd naturiol. Defnyddiwch ein Nodyn gwybodaeth - Tân, Nodyn gwybodaeth - Tanau gwyllt a Nodyn gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt.
2. Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bychain er mwyn dod o hyd i ddiffiniad o beth yw tân gwyllt.
3. Gadewch iddyn nhw rannu eu diffiniadau a'u trafod.
4. Nesaf, ystyriwch a yw tanau gwyllt yn wahanol i danau coedwig, tanau gwair neu danau mewn tir gwyllt?
5. Gofynnwch i'ch dysgwyr feddwl am ffyrdd y gallai tân gwyllt ddechrau?
6. Trafodwch a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw danau gwyllt yn eu hardal neu ydyn nhw wedi gweld manylion am danau gwyllt yn y newyddion? Sut oedd hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo?
7. Gan ddefnyddio offeryn mapio lloeren ar-lein fel MapDataCymru, gofynnwch i'ch dysgwyr archwilio daearyddiaeth yr ardal leol. Pa nodweddion amgylcheddol a daearyddol allai effeithio ar nerth neu symudiad tan gwyllt? Gofynnwch i'ch dysgwyr nodi:
   - Faint o lystyfiant sydd o gwmpas ac yn yr ardal?
   - Oes yna goetiroedd, caeau, ardaloedd o laswellt, cyrff dŵr, ac ati?
   - Sut dopograffeg sydd gan y tir? Oes yno lethrau, dyffrynnoedd, llethrau serth, ac ati?
8. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu bod tân gwyllt wedi cychwyn yn eu hardal leol. A allan nhw nodi unrhyw ardaloedd allai fod yn fan tebygol iawn ar gyfer tanau gwyllt, e.e. ardal o dir prysgwydd neu goetir? A ydyn nhw'n gallu dargafod y llwybr y gallai'r tân gwyllt ei gymryd yn naturiol pe bai'r amodau yn gywir? Gellid dangos hyn fel llun neu fap anodedig ar-lein neu ar bapur. Gofynnwch i bob grŵp gynnig adborth am eu syniadau ac egluro eu rhesymau a'r ffactorau a ystyriwyd ganddyn nhw er mwyn dod i'w casgliad.
9. Eglurwch wrth eich dysgwyr eu bod yn mynd i weithio yn eu grwpiau gan ddefnyddio eu casgliadau i ddatblygu cynllun dianc ar gyfer eu cartrefi neu eu lleoliad, rhag ofn y bydd tân gwyllt yn digwydd cynnau. Gellir datblygu'r cynllun dianc drwy ddefnyddio offer ar-lein neu gall fod ar bapur.
10. Gofynnwch i bob grŵp fraslunio ôl troed yr adeilad a ddewiswyd. Dylid cynnwys yr ardal gyfagos a'r dirwedd ehangach.
11. Gan feddwl am eu canfyddiadau, gofynnwch i'ch dysgwyr drafod ac yna nodi'r llwybrau dianc cyflymaf a mwyaf diogel o'r adeilad.
12. Unwaith y byddan nhw bellter diogel o'r adeilad, i ble y bydden nhw'n mynd nesaf er mwyn cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel? Plotiwch y llwybr cyflymaf a mwyaf diogel o'r adeilad i'r fan hon.
13. Rhag ofn y bydd rhywbeth yn rhwystro'r llwybr a ddymunir, oes modd i'ch dysgwyr greu cynllun B a dod o hyd i'r llwybr gorau nesaf? Beth petai'r tân gwyllt yn dod o gyfeiriad annisgwyl – a fyddai eu llwybr dianc yn dal yn ymarferol?
14. Gofynnwch i'ch dysgwyr ymestyn cynnwys eu cynlluniau dianc trwy restru unrhyw gamau y gallai fod angen iddyn nhw eu cymryd pe bai'n rhaid iddyn nhw adael yr ardal. Gofynnwch iddyn nhw drafod beth y gallai fod angen iddyn nhw gynllunio ar ei gyfer. Er enghraifft:
    - Os digwydd iddyn nhw gael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu fe ddylen nhw sicrhau bod ganddyn nhw fanylion cyswllt brys ar eu cyfer.
    - Oes yna unrhyw aelodau bregus o'u teulu neu eu grŵp allai fod angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod ffoi?
    - Beth am anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill a allai fod yn byw gartref neu yn y lleoliad? Oes angen cynllun dianc ar wahân arnyn nhw, neu oes modd eu cynnwys yn y cynllun hwn?

- Oes ganddyn nhw becyn argyfwng, rhag ofn y bydd angen iddyn nhw ddianc oherwydd achos o dân gwyllt? Pa eitemau angenrheidiol fydden nhw'n eu rhoi yn eu cit argyfwng? Anogwch eich dysgwyr i feddwl am beth sy'n hollbwysig, e.e. meddyginiaeth, dognau bwyd brys, pecyn cymorth cyntaf, ac ati.
- Ydyn nhw'n gwybod ble mae offer diffodd tân wedi'i leoli? Gallech ofyn i'ch dysgwyr ymgyfarwyddo â lleoliad diffoddwyr tân, blancedi tân, larymau tân.
- Oes unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i'r ardal o amgylch yr adeilad neu oddi mewn i'r dirwedd leol a allai helpu i atal tanau gwyllt rhag lledu? Pwy allai helpu gyda hyn?

**15.** Unwaith y bydd y cynlluniau wedi'u cwblhau, rhannwch y wybodaeth gyflawn gyda'r grŵp ehangach. Oes unrhyw wybodaeth heb ei chynnwys? Oes unrhyw rai o'r cynlluniau yn tynnu sylw ac am ba reswm? Oes modd casglu at ei gilydd wybodaeth o bob cynllun er mwyn llunio prif gynllun dianc rhag tanau gwyllt y gellid ei roi ar waith? Sut y gellid rhannu'r wybodaeth hon â chartrefi eraill yn yr ardal, y gymuned ehangach neu eraill allai gael eu heffeithio?

**16.** Gofynnwch i'ch dysgwyr ymarfer eu cynllun(iau) dianc a'u llwybrau dianc er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio ac er mwyn i bawb fod yn gwybod beth i'w wneud, rhag ofn y bydd achos o dân gwyllt yn yr ardal, a'i addasu os oes angen.

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Sut allech chi aros yn ddiogel pe bai tân gwyllt gerllaw?
- Sut allech chi helpu eraill mewn ffordd ddiogel yn ystod tân gwyllt?
- Pa lwybr y gallai tân gwyllt ei gymryd yn eich ardal chi?
- Sut y gallai tân gwyllt effeithio ar eich cymuned?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Cwblhewch y gweithgaredd fel grŵp cyfan.
- Darparwch gefnogaeth ychwanegol.

### Mwy o her

- Y dysgwyr i gwblhau eu cynllun gweithredu yn unigol.
- Lluniwch gynllun cyfathrebu i gyd-fynd â'r cynllun dianc.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd - Taclo'r taniwr
- Cynllun gweithgaredd - Pynciau llosg yn y cyfryngau
- Ewch ati i greu poster cymunedol neu roi cynnig ar ein Cynllun gweithgaredd - Ymgyrchu dros natur: Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n awgrymu camau i'w cymryd rhag ofn y bydd achos o dân gwyllt.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government